# Adroddiad Arolygu

**Dechrau'n Deg Bumble Bees wedi ei reoli gan Little Inspirations**

**Ysgol Gynradd Y Colcot**
**Florence Avenue**
**Y Barri**
**CF62 9XH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/08/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Dechrau'n Deg Bumble Bees wedi ei reoli gan Little Inspirations

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Little Inspirations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Medi 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw<br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.  Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn hyderus iawn, yn hapus ac yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Mae ganddynt leisiau cryf ac maent yn cyfathrebu'n hyderus â'r bobl sydd o'u cwmpas. Mae'r plant yn dangos brwdfrydedd ac maent yn gyffrous wrth chwarae. Gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu neu ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae'r staff gofal yn deall polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn eu rhoi ar waith. Ar y cyfan, maent yn dilyn arferion hylendid da ac yn atgoffa'r plant yn gyson am gadw'n ddiogel. Mae'r staff gofal yn cynllunio, cynnal a gwerthuso gweithgareddau'n effeithiol.

Mae mesurau effeithiol ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Fodd bynnag, mae angen iddynt wella'r asesiadau risg er mwyn adnabod yr holl risgiau. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn cynnig amrywiaeth dda o adnoddau, teganau ac offer.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn monitro ac adolygu'r lleoliad yn gyson ac yn cwblhau hunanwerthusiad bob blwyddyn yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod y staff gofal yn addas i weithio gyda phlant ac yn cynnal datblygiad proffesiynol ystyrlon. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol cadarnhaol â'r rhieni.

## Llesiant

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus iawn ar lafar ac yn ddieiriau. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, pwyntiodd plentyn iau at y ffrwyth roeddent ei eisiau o'r dewis oedd ar gael. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys dewis lle i chwarae; dan do neu yn yr awyr agored, a gofynnir iddynt yn gyson a ydynt eisiau cymryd rhan mewn gweithgaredd neu fynd i gael newid eu cewynnau.

Mae'r plant yn hyderus ac yn hapus, maent yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, gwichiodd un plentyn wedi ei gyffroi pan ofynnwyd iddo a oedd eisiau ymuno â gweithgaredd wy deinosor. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau. Maent yn gwenu ar y staff gofal ac oedolion eraill o'u cwmpas. Mae gan y plant gydberthnasau agos, gan eistedd gyda'r staff gofal a gofyn iddynt gymryd rhan yn eu chwarae. Mae'r plant yn mynd at y staff i gael sicrwydd, ac roeddent yn gwenu wrth i'r staff ganu gyda nhw. Mae'r plant yn dangos eu bod yn gyfarwydd â'u trefn feunyddiol. Er enghraifft, ar ôl cinio, roedd y plant yn gwybod lle i fynd i gysgu.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda. Roedd y plant yn sgwrsio â'r staff am eu chwarae ac yn chwarae yn dda ag eraill. Gwelsom ddau blentyn yn chwarae, roedd gan un plentyn geffyl, a chwarddodd y ddau wrth i'r llall fwydo deilen iddo. Mae'r plant yn cydweithio'n dda ac yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan. Aeth y plant hŷn draw i weld y plant iau yn chwarae yn yr awyr agored, a dywedodd un plentyn wrth y staff gofal i fod yn dawel gan ei fod wedi sylwi ar un o'r babanod yn cysgu. Mae rhai plant yn dweud os gwelwch yn dda a diolch, a chyhoeddwyd yn hyderus i'r ystafell “*that was lovely* " (roedd y bwyd yn hyfryd) ar ôl gorffen eu cinio.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y plant wedi eu cyffroi'n arw pan welsant y staff gofal yn dod â'r swigod allan, a chafodd un plentyn drafodaeth o ddifrif â'r staff gofal ynghylch pam nad oedd cymaint o swigod y tro hwn o gymharu â'r tro diwethaf. Caiff y plant nifer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau. Gall y plant ymuno mewn gweithgareddau a arweinir gan oedolyn neu ddewis eu lle chwarae eu hunain. Er enghraifft, roedd llawer o'r plant yn chwarae gyda'r staff, ac aeth un plentyn lawr i'r gegin fwd i baratoi bwyd i'w ceffyl.

Caiff y plant gcyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, cânt eu hannog i ddefnyddio ardal y toiledau'n annibynnol neu ddewis pryd i fwyta eu byrbryd. Mae’r plant yn mwynhau eu chwarae rhydd, gan rannu'r hyn maent wedi ei ddysgu gyda'r plant eraill a'r staff gofal. Er enghraifft, daeth plentyn o hyd i bry a daeth i'w ddangos i'r plant eraill, gan siarad am ble y daeth o hyd iddo a dweud wrthynt bethau roedd yn eu gwybod am y pry.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff gofal yn gweithio'n gadarnhaol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'n dda. Mae'r staff gofal yn dilyn amserlen lanhau gyson, ynghyd â dilyn arferion hylendid da. Er enghraifft, maent yn sychu'r byrddau cyn gweini cinio ac yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta. Fodd bynnag, nid ydynt yn newid eu ffedogau rhwng newid cewynnau oni bai eu bod yn fudur. Mae'r staff gofal yn cynnig amrywiaeth eang o ffrwythau, llysiau a phrydau cartref iach. Maent yn cadw'r plant yn ddiogel ar y cyfan, ac yn eu hatgoffa i beidio â dringo, eu hannog i chwythu ar eu bwyd a dilyn y gymhareb staffio y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn cydymffurfio â'r gymhareb staff pan oeddent yn yr awyr agored. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant yn dda iawn, a gwnaethant ateb yn hyderus os bu digwyddiad yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'r staff gofal yn gweithio'n gyson i barchu preifatrwydd y plant yn enwedig wrth newid cewynnau.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Er enghraifft, atgoffwyd y plant gan y staff gofal i fod yn garedig a defnyddiwyd technegau tynnu sylw pan oedd plant yn ffraeo dros degan. Maent yn annog y plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch ac maent yn fodelau rôl da i'r plant. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Roedd y staff gofal yn annog y plant i fod yn annibynnol, a'u cefnogi hefyd pe bai angen. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, roedd y staff gofal yn annog y plant i ddefnyddio eu ffyrc wrth fwyta, a chefnogwyd y plant pe bai angen. Roedd y staff gofal yn holi'r plant am eu gweithgareddau a'u chwarae. Er enghraifft, fe wnaethant ofyn i'r plant am liwiau gwahanol adnoddau neu'r hyn roeddent wedi bod yn ei wneud. Cafwyd llawer o sgyrsiau rhwng y staff gofal a'r plant. Mae'r staff gofal yn cynllunio ac yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu gan wneud gwaith cynllunio priodol. Maent yn gweithio fel grŵp er mwyn rhannu, cynllunio a chynnal amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gwerthuso ac adnabod pryderon neu'r hyn sydd heb fod yn llwyddiannus â'r plant a beth sydd wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r staff gofal yn olrhain datblygiad y plant, ac yn arsylwi eu sgiliau gan ddilyn gweithdrefnau'r lleoliad pe bai ganddynt unrhyw bryderon am y plant. Dywedodd rhieni eu bod wedi sylwi ar eu plant yn datblygu tra'u bod wedi bod yn mynychu'r lleoliad.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel a glân. Mae ganddynt ystod o asesiadau risg priodol ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau cyffredinol a phenodol, megis asesiad risg ar gyfer y plant na allant gerdded eto. Mae'r asesiadau risg yn adnabod nifer o beryglon, yn disgrifio'r mesurau rheoli a ddefnyddir ac maent yn dyddio'r dogfennau at ddibenion adolygu. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'r holl beryglon. Er enghraifft, nid yw asesiad risg y toiledau yn cynnwys y sychwr dwylo nac yr ardal newid cewynnau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cynnal gwiriadau diogelwch ac ymarferion tân yn rheolaidd, ac mae ganddynt daflen drosolwg er mwyn monitro eu cofnodion diogelwch a'u dyddiadau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dda dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r brif ystafell chwarae yn olau, yn agored ac yn groesawgar. Mae ardal ar wahân ar gael i blant iau na dwy oed o fewn y brif ystafell er mwyn caniatáu i'r plant chwarae'n ddigel gan barhau i ryngweithio â'r plant hŷn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu ardal gysgu ddiogel, a darperir matiau cysgu unigol a chaiff y bleinds eu cau er mwyn i'r plant gael cysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y gall y plant gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau, adnoddau a chyfarpar mewn storfeydd lefel isel. Mae amrywiaeth o ardaloedd yn y brif ystafell chwarae er mwyn i'r plant archwilio gan gynnwys ardal greadigol, ardal lyfrau ynghyd â rhai adnoddau amlddiwylliannol a naturiol. Mae ardal chwarae fawr a chyffrous yn yr awyr agored sydd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig cyfleoedd diddorol i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio'n gyson a bod amrywiaeth eang o deganau, adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant. Er enghraifft, ffrâm ddringo, lloriau meddal, eitemau synhwyraidd a beiciau bach.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, cynhwysfawr a phroffesiynol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent wedi rhoi pob un o'r argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cadw'r cofnodion gofynnol. Mae ganddynt ystod eang o wybodaeth am y plant gan gynnwys ffurflenni meddyginiaethau a ffurflenni damweiniau a digwyddiadau manwl, sy'n cael eu monitro'n rheolaidd. Mae ganddynt ystod eang o bolisïau effeithiol ar waith y mae'r staff gofal yn eu dilyn yn gyson. Fodd bynnag, mae'r polisi newid cewynnau yn nodi nad oes angen i'r staff newid eu ffedogau rhwng newid cewynnau oni bai eu bod yn fudur, sy'n groes i ymarfer gorau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal hunanwerthusiad parhaus ac ystyrlon yn effeithiol Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, staff gofal a phartneriaid eraill â diddordeb yn rheolaidd ac yn gweithredu arnynt. Mae eu hadroddiad blynyddol yn dangos mewn manylder yr hyn maent wedi eu cyflawni neu wedi ei wneud yn dda, a lle sydd angen iddynt wella a sut y byddant yn mesur hyn. Maent yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Er enghraifft, maent wedi amlygu'r angen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a gwella cynlluniau'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn cwblhau adroddiad hunanwerthuso bob chwe mis, er mwyn monitro ystod o feysydd gwahanol gan gynnwys gweld a ydynt wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol, hyfforddiant staff a chwynion ac yn y blaen. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefn bryderon gadarn mewn lle er mwyn cynnal ymchwiliad manwl gan gynnwys cyfweld â staff, adolygu'r gwaith papur ac edrych ar feysydd i'w gwella a chamau gweithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda iawn, a chynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau amserol da yn rheolaidd. Mae ganddynt weithdrefn sefydlu dda ar waith a chaiff y staff gofal gyfleoedd rheolaidd i gwblhau hyfforddiant. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael goruchwyliadau gwerth chweil ac adborth ar eu rolau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio'r staff gofal yn dda er mwyn cyflawni'r cymarebau staffio a diwallu anghenion y plant. Maent yn cofnodi union amserau presenoldeb yn ogystal â phwy sy'n gofalu am y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofnodi pwy sy'n gofalu am y plant yn ystod egwylion y staff. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu system a'i rhoi ar waith i gofnodi pwy sy'n gofalu am y plant yn ystod egwylion y staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Gwnânt yn siŵr fod y rhieni yn cael gwybodaeth drwy'r ap 'FAMLY', gan gynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r plant, y bwyd maent wedi bwyta a newid cewynnau. Dywedodd y rhieni eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth, mae'n hawdd mynd at y staff ac mae'r plant yn edrych ymlaen at fynd i'r lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y

feithrinfa gysylltiadau da ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys dechrau'n deg ac ysgolion lleol.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau y cydymffurfir â'r cymarebau bob amser pan yn yr awyr agored.

A2. Sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â defnyddio ffedogau untro wrth newid cewynnau.

A3. Datblygu'r asesiadau risg ymhellach er mwyn nodi'r holl risgiau.

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni |
| --- |

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/11/2021